CYNGOR BWRDEISTREF SIROL

RHONDDA CYNON TAF

COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Democratic Services (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX** ar **DYDD MERCHER, 5ED CHWEFROR, 2020** am **5.00 PM.**

AGENDA **Tudalennau**

10.1. < **DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG**

3 - 6

Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor

CYFARFOD Y CYNGOR - 5 CHWEFROR 2020
DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM (10B) O AGENDA'R CYNGOR

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiad canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol H. Boggis, J. Edwards, L. M. Adams, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, A. Calvert, G. Caple, A. Crimmings, A. Davies-Jones, L. De Vet, J. Elliott, S.Evans, M. Fidler Jones, M. Forey, A. Fox, E. George, M. Griffiths, J. Harries, G. Holmes, G. Hopkins, G. Hughes, G. Jones, R. Lewis, W. Lewis, C. Leyshon, A. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, S. Pickering, S. Powell, S. Powderhill, S. Rees, A. Roberts, J. Rosser, G. Stacey, M. Tegg, G. Thomas, W. Treeby, R. K. Turner, M. Webber, D. Williams, T. Williams, C. J. Willis a R. Yeo i'r Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i nodi yn eitem 10(B) o Agenda'r Cyngor.

Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad enfawr Cyngor ar Bopeth i ansawdd bywyd trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'n pryderu, felly, wrth glywed am y toriadau i wasanaethau allgymorth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'u diddymu'n llwyr yng Nghwm-bach, Pont-y-clun, Pont-y-gwaith, Treherbert ac Ystrad. Mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi. Yn anochel, felly, bydd cyngor hollbwysig yn fwy anodd ac yn fwy drud i'w ganfod. Mae hyn ar adeg pan fo Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol a chymorth cyfreithiol ar ei liniau. Yn anffodus mae tri aelod o staff wedi colli eu swyddi.

Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ailddyrannu adnoddau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at Cyngor ar Bopeth RhCT yn colli £144,000 mewn refeniw.

{Ychwanegu: Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyllid sylweddol y mae'r Awdurdod hwn eisoes yn ei ddarparu, sef cyfanswm o £447,000 y flwyddyn, sydd wedi'i warchod dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu'r adnoddau i Cyngor ar Bopeth RhCT gynnig cymorth i drigolion sydd wedi'u heffeithio gan heriau Credyd Cynhwysol a mesurau cyni ar yr ardal leol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cymorth ychwanegol i Cyngor ar Bopeth RhCT er mwyn i'r gwasanaeth beidio â chael ei effeithio'n andwyol gan y dyraniad cyllid newydd.}

Mae'r Cyngor yn galw {Dileu: ~~am gyfarfod brys gyda chynrychiolwyr Cyngor ar Bopeth]~~ a Llywodraeth Cymru i unioni'r sefyllfa, ac os oes angen, i ganfod ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig yma.

Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Mae'r Cyngor hwn yn gwerthfawrogi cyfraniad enfawr Cyngor ar Bopeth i ansawdd bywyd trigolion Rhondda Cynon Taf. Mae'n pryderu, felly, wrth glywed am y toriadau i wasanaethau allgymorth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae gwasanaethau Cyngor ar Bopeth wedi'u diddymu'n llwyr yng Nghwm-bach, Pont-y-clun, Pont-y-gwaith, Treherbert ac Ystrad. Mewn ardaloedd eraill mae'r gwasanaeth wedi'i gwtogi. Yn anochel, felly, bydd cyngor hollbwysig yn fwy anodd ac yn fwy drud i'w ganfod. Mae hyn ar adeg pan fo Credyd Cynhwysol yn cael ei gyflwyno ledled y Fwrdeistref Sirol a chymorth cyfreithiol ar ei liniau. Yn anffodus mae tri aelod o staff wedi colli eu swyddi.

Mae'r toriadau hyn o ganlyniad i ailddyrannu adnoddau gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi arwain at Cyngor ar Bopeth RhCT yn colli £144,000 mewn refeniw.

Mae'r Cyngor hwn yn nodi'r cyllid sylweddol y mae'r Awdurdod hwn eisoes yn ei ddarparu, sef cyfanswm o £447,000 y flwyddyn, sydd wedi'i warchod dros y blynyddoedd diwethaf i ddarparu'r adnoddau i Cyngor ar Bopeth RhCT gynnig cymorth i drigolion sydd wedi'u heffeithio gan heriau Credyd Cynhwysol a mesurau cyni ar yr ardal leol.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried cymorth ychwanegol i Cyngor ar Bopeth RhCT er mwyn i'r gwasanaeth beidio â chael ei effeithio'n andwyol gan y dyraniad cyllid newydd.

Mae’r Cyngor yn galw a Llywodraeth Cymru i unioni'r sefyllfa, ac os oes angen, i ganfod ffynonellau cyllid amgen ar gyfer y gwasanaeth hollbwysig yma.